

Nodiadau Esboniadol ynghylch Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro

Darllenwch yr arweiniad hwn ar y cyd â'r nodiadau ar dudalennau 7-13 o'r ffurflen gais - Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro.

Mae dau fath o Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (TEN):-

- TEN safonol, y mae'n rhaid ei gyflwyno o leiaf ddeng niwrnod gwaith clir cyn dyddiad dechrau'r digwyddiad.
- TEN hwyr, sy'n cael ei roi 9 niwrnod ac nid hwyrach na 5 niwrnod gwaith clir cyn dyddiad dechrau'r digwyddiad.

Bwriedir bod TEN hwyr yn cael ei ddefnyddio gan ddefnyddwyr safle sydd, am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth yn gorfod, er enghraifft, newid man cynnal a hynny ar fyr rybudd. Dylid eu defnyddio o dan amgylchiadau eithriadol yn unig. (gweler nodyn 8 ar dudalen 11 o'r ffurflen TEN)

Ystyr 'diwrnod gwaith' yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod gŵyl banc. **Nid yw diwrnodau gwaith cyfnod yr hysbysiad yn cynnwys diwrnod dechrau'r digwyddiad na'r diwrnod y mae'r cais yn cyrraedd llaw yr Awdurdod.**

Sylwch

Nid oes gan y Cyngor ddisgresiwn i leihau isafswm diwrnodau gwaith y cyfnod rhybudd. Mae'r Cyngor yn argymhell yn gryf fod defnyddwyr safleoedd yn rhoi hyd at **dri mis** o rybudd cyn y digwyddiad, er mwyn caniatáu digon o amser i ddelio ag unrhyw gwestiynau sy'n codi.

Y weithdrefn ar gyfer rhoi Hysbysiad Digwyddiad Dro Dro Safonol neu Hwyr

Mae'n rhaid i ddefnyddiwr y safle gyflwyno'r canlynol:

- Dau gopi o'r ffurflen TEN ynghyd â'r ffi sef **£21** i'r Awdurdod Trwyddedu
- Un copi o'r ffurflen TEN i'r Heddlu
- Un copi o'r ffurflen TEN i Is-adran Iechyd yr Amgylchedd

Cyfeiriadau ar gyfer Cyflwyno Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro:-

Yr Adain Drwyddedu	Heddlu Dyfed-Powys	Ymarferydd Iechyd yr
Adran Cymunedau	Swyddog Trwyddedu yr	Amgylchedd
Cyngor Sir Caerfyrddin	Heddlu	Adain Llygredd
3 Heol Spilman	Gorsaf Heddlu	Neuadd y Dref
Caerfyrddin	Rhydaman	Heol Iscennen
SA31 1LE	Heol Y Ffowndri	Rhydaman
	Rhydaman	SA18 3BE
	SA18 2LS	

Dylid nodi ar yr amlenni ‘BRYD - HYSBYSIAD DIGWYDDIAD DROS DRO’

£21 yw'r ffi ar gyfer Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro safonol neu hwyr. Dylai pob siec fod yn daladwy i "Cyngor Sir Caerfyrddin".

Tâl Postio Cywir

Os ydych yn anfon eich cais am Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro drwy'r post gofawch fod y tâl postio yn ddigonol. Mae'n bosibl na fydd ceisiadau'n cael eu derbyn os bydd tâl postio yn ddyledus.

Gall gymryd peth amser i anfon dogfennau yn ôl drwy'r post ac fe all fod yn rhy hwyr i ailgyflwyno'r hysbysiad wedyn.

Y Terfyn o ran nifer y Digwyddiadau Dros Dro

Nodir y terfynau, gan gynnwys nifer yr hysbysiadau y gellir eu cyflwyno mewn perthynas â safle a chan unigolyn yn y Nodiadau Cyffredinol ar dudalen 7 ac mewn rhai nodiadau eraill ar y ffurflen TEN a bennwyd.

Wrth gyfrif nifer y dyddiau y mae hysbysiad yn berthnasol iddynt, nodwch y byddai digwyddiad sy'n dechrau cyn canol nos ac yn parhau i'r diwrnod nesaf yn cyfrif fel dau ddiwrnod o ran y terfynau.

Mae'n rhaid cyflwyno'r hysbysiad gan ddefnyddio'r ffurflen a bennwyd.

Gweithgareddau Trwyddedadwy

Nodir y rhain yn Nodyn 6 ar dudalen 9 o'r ffurflen TEN.

Deddf Cerddoriaeth Fyw

Yn sgil newidiadau a gyflwynwyd yn Hydref 2012 nid oes angen awdurdodi rhai perfformiadau cerddoriaeth fyw penodol. Mae cyngor pellach ynghylch y newid hwn ar gael o'r Adain Drwyddedu.

Prosesu Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro

Os nad yw'r cais yn unol â'r paramedrau statudol a ddisgrifiwyd yn y nodiadau esboniadol sy'n gysylltiedig â'r ffurflen TEN, bydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi gwrth-hysbysiad i ddefnyddiwr y safle.

Os yw'r TEN yn dderbyniol, y ffi wedi'i thalu, y digwyddiad yn cydymffurfio â'r terfynau a bennwyd ac nad oes gwrthwynebiad gan yr heddlu neu swyddogion iechyd yr amgylchedd ar sail unrhyw rai o'r pedwar amcan trwyddedu, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cofnodi'r hysbysiad yn ei gofrestr ac yn anfon cydnbyddiaeth at ddefnyddiwr y safle. Caniateir tri diwrnod gwaith i'r heddlu ac i'r swyddogion iechyd yr amgylchedd wrthwynebu'r TEN wedi i'r hysbysiad ddod i law.

TEN Safonol - gwrthwynebiad

Os yw'r awdurdod trwyddedu yn derbyn hysbysiad gwrthwynebu oddi wrth yr heddlu neu awdurdod lleol yn ymarfer ei swyddogaethau iechyd yr amgylchedd ac na thynnir y gwrthwynebiad yn ôl, mae'n rhaid (yn achos TEN safonol yn unig) cynnal gwrandawriad i

ystyried y gwrthwynebiad (oni bai bod yr holl bartïon yn cytuno nad oes angen gwneud hyn). Gall y Pwyllgor Trwyddedu benderfynu caniatáu i'r gweithgareddau trwyddedadwy fynd ymlaen fel y nodwyd yn yr hysbysiad. Os yw'r hysbysiad yn ymwneud â gweithgareddau trwyddedadwy ar safle trwyddedig, gall yr awdurdod trwyddedu hefyd ychwanegu un neu ragor o amodau'r drwydded bresennol at y TEN (i'r graddau y mae'r cyfryw amodau yn gyson â'r digwyddiad) os yw'n ystyried bod hyn yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Os yw'r awdurdod yn penderfynu pennu amodau, mae'n rhaid rhoi rhybudd i ddefnyddiwr y safle sy'n cynnwys datganiad o amodau ("hysbysiad (datganiad amodau)"), a rhoi copi i bob parti perthnasol. Fel arall, gall benderfynu y byddai'r digwyddiad yn tanseilio'r amcanion trwyddedu ac na ddylid ei gynnal. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi gwrth-hysbysiad.

TEN Hwyr - gwrthwynebiad

Os bydd yr heddlu neu'r awdurdod lleol yn ymarfer ei swyddogaethau iechyd yr amgylchedd yn gwrthwynebu, ni chaiff y digwyddiad ei gynnal. O dan yr amgylchiadau hyn nid oes cyfle i gynnal gwrandawriad nac ychwanegu'r amodau presennol.

Trafodaethau cyn cyflwyno TEN

Cynghorir trefnwyr sy'n bwriadu cynnal digwyddiad mawr i gysylltu'n gynnar iawn â Chyngor Sir Caerfyrddin cyn gwneud hysbysiad ffurfiol. Bydd hyn yn fodd i'r heddlu ystyried yr atodlen weithredu a'i thrafod gyda'r trefnwyr ac osgoi gwrthwynebiadau ac oedi posibl.

Nodwch y bydd y sawl sy'n rhoi gwybod i Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro yn gyfrifol am iechyd, diogelwch a lles y rhai sy'n mynychu'r digwyddiad ac yn gweithio yno ynghyd â chydymffurfio â gofynion Deddf Trwyddedu 2003. Felly, argymhellir bod asesiad risg ac asesiad risg tân yn cael eu cynnal cyn pob digwyddiad.

Mae'n rhaid hefyd i'r unigolyn hwn sicrhau na fydd y digwyddiad yn achosi niwsans sŵn i breswylwyr gerllaw. Os yw'r digwyddiad i gael ei gynnal yn yr awyr agored, mewn pabell fawr neu mewn adeilad amaethyddol neu adeilad tebyg gofynnir ichi sicrhau eich bod yn nodi hyn ar eich cais (gall cynllun fod yn ddefnyddiol o ran ymateb i'ch cais).

Cyfreithiau Cynllunio

Nid yw rhoi hysbysiad digwyddiad dros dro yn esgusodi defnyddiwr y safle rhag unrhyw un o ofynion y gyfraith gynllunio o ran cael caniatâd cynllunio priodol lle bo hynny'n ofynnol.

I gael gwybodaeth gyffredinol ynghylch digwyddiadau dros dro cysylltwch â'r canlynol:-

**Adain Drwyddedu y Cyngor
Adran Cymunedau
Cyngor Sir Caerfyrddin
3 Heol Spilman
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 1LE**

**Rhif ffôn: 01267 234567
Ffacs : 01267 229141
e-bost SCHLicensing@sirgar.gov.uk**

Mae dyletswydd arnom, fel corff cyhoeddus, i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus a weinyddir gennym ac i'r diben hwn mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen hon i atal a darganfod twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar wefan y Cyngor neu cysylltwch â'r adran hon.

CYNGOR CYFFREDINOL AR GYFER TREFNWYR DIGWYDDIADAU:-

1. Y Man Cynnal

Dylid paratoi darlun llinell cynhwysfawr o'r man cynnal. Dylai'r darlun llinell gwmpasu'r ardal gyfan y bydd gan bobl fynediad iddi yn ystod y digwyddiad a dylid nodi'r holl nodweddion arno, yn enwedig y canlynol:-

- a) Pob mynedfa ac allanfa i'r man trwyddedig, a phob strwythur neu adeilad a ddefnyddir.
- b) Cyfleusterau parcio.
- c) Llwyfan/band neu ddisgo.
- d) Bar.
- e) Seddi.
- f) Socedi trydan.
- g) Tai bach
- h) Unrhyw newid lefel neu risiau.
- i) Pob rhwystr neu bared yn y man trwyddedig.
- j) Llifoleuadau.

Dylai'r cynllun nodi'n glir faint pob allanfa, y man trwyddedig ac unrhyw strwythur ynddo.

2) Parcio Ceir

- a) Dylai trefnwyr sicrhau bod digon o lefydd parcio ar gael a bod y tir a glustnodwyd yn addas i'r diben hwn.
- b) Mae'n rhaid i'r holl fynedfeydd ac allanfeydd fod yn ddigonol i'r cerbydau a fydd yn y digwyddiad ac mae'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys. Mae'n rhaid cael arwyddion clir i ddangos yr holl fynedfeydd ac allanfeydd a dylai'r trefnwyr sicrhau na chaniateir i gerbydau barcio ar y briffordd ger unrhyw fannau mynediad.
- c) Dylid darparu mynedfeydd ac allanfeydd gwahanol ar gyfer cerbydau a cherddwyr.
- d) Dylid defnyddio stiwardiaid parcio penodedig i reoli'r parcio ac i sicrhau na fydd cerbydau'n creu rhwystr ar briffyrdd cyhoeddus cyfagos.
- e) Rhoddir tortshis a dillad hawdd eu gweld i'r holl stiwardiaid parcio.
- f) Mae'n rhaid darparu llifoleuadau yn ystod oriau tywyllwch.
- g) Mae'n rhaid i'r tir fod yn glir o beryglon e.e. pyst ffensio/gwifrau/peiriannau amaethyddol ac mae'n rhaid llenwi unrhyw dyllau er mwyn atal niwed i gerddwyr neu ddifrod i gerbydau.
- h) Mae'n rhaid amlygu unrhyw beryglon na ellir eu gwaredu a'u gwneud yn ddiogel.

Mynediad i Gerbydau'r Gwasanaethau Brys

Mae'n ofynnol fod trefnwyr yn sicrhau bod mynediad clir i gerbydau'r gwasanaethau brys drwy gydol y digwyddiad. Dylid neilltuo mynedfa benodol i'r diben hwn lle bo hynny'n ymarferol

3) Ffôn

Mae'n rhaid darparu ffôn ar y safle at ddefnydd y Trefnydd neu'r stiwardiaid mewn argyfwng. Os bwriedir defnyddio ffôn symudol mae'n rhaid i'r trefnydd sicrhau bod signal digonol ar y ffôn a'i fod ar gael drwy gydol y digwyddiad.

4) Stiwardio

- a) Mae'n rhaid darparu 1 stiward ar gyfer pob 100 o bobl neu ran o gant sy'n bresennol ar y safle/yn y digwyddiad.
- b) Mae'n rhaid rhoi siaced/fest hawdd ei gweld i bob stiward a thortsh pwerus.
- c) Cyn y digwyddiad, mae'n rhaid rhoi cyfarwyddyd i'r holl stiwardiaid ynghylch eu cyfrifoldebau penodol. Dylent fod yn gyfarwydd hefyd â'r drefn ymadael mewn argyfwng ar gyfer y digwyddiad gan gynnwys unrhyw gyhoeddiadau fydd yn cael eu rhoi gan y troellwr disgiau.
- d) Dylid rhoi cyfle hefyd i'r stiwardiaid ymgyswngi â chynllun y safle.
- e) Dylai stiwardiaid fod wrth bob mynedfa ac allanfa ac mewn mannau allweddol, er enghraifft wrth ochr y llwyfan, wrth y bar ac wrth y tai bach.
- f) Mae'n rhaid darparu stiwardiaid ychwanegol i oruchwylio'r maes parcio ac i ddiogelu unrhyw adeiladau ac eiddo cyfagos na fydd y cyhoedd yn cael mynediad iddynt.

5) Nifer y bobl a ganiateir

Mae'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar gyfer mwyafswm o 499 o bobl. Mae'r nifer hwn yn cynnwys yr holl staff a'r perfformwyr. Mae'n rhaid i'r trefnydd ddangos y bydd system ar waith yn ystod y digwyddiad i gyfrif nifer y bobl sy'n bresennol e.e. gwerthu tocynnau ymlaen llaw neu ddefnyddio dull mecanyddol o gyfrif.

Mae'n rhaid i'r Trefnydd reoli nifer y bobl a ganiateir drwy gydol y digwyddiad. Mae caniatáu i fwy na 499 o bobl fod yn bresennol mewn digwyddiad y rhoddwyd Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro iddo yn dor-amod difrifol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. O ganlyniad gellir erlyn Deiliad yr Hysbysiad.

6) Seddi

Dylid darparu manylion y seddi a ddefnyddir yn rhan o'r cais. Awgrymir eich bod yn cytuno ar gynllun seddi gyda'r Swyddog Tân.

7) Darpariaeth Cymorth Cyntaf

Argymhellir bod o leiaf ddau o'r stiwardiaid yn ddarparwyr cymorth cyntaf sydd wedi'u hyfforddi. Dylid neilltuo man lle gellir trin unigolion a all fod angen sylw i ffwrdd o'r prif ddigwyddiad. Hefyd, dylai'r man hwn fod â'r cyfleusterau angenrheidiol ar gyfer ymdrin ag unrhyw ddigwyddiad yn ystod y noson.

8) Pebyll Mawr

- a) Dylai'r ymgeisydd ddarparu tystysgrif a roddwyd gan gyflenwr y babell fawr sy'n nodi gradd nodweddion gwrthfflam y babell.
- b) Mae'n rhaid codi'r pebyll mawr yn unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd gyda'r cais. Mae'n rhaid cymryd gofal na fydd pebyll mawr yn cael eu codi yn agos at berthi neu ffensys terfyn, a all gyfyngu ar ddefnyddio unrhyw agoriadau pe byddai argyfwng.
- c) Mae'n rhaid datod pob mynedfa ac allanfa frys a nodwyd fel bod modd eu hagor yn ddi-oed yn ystod y digwyddiad.
- d) Mae'n rhaid sicrhau bod modd agor yr allanfeydd i'r lled a bennwyd gan y Swyddog Tân ac ni ddylid caniatáu i begiau neu raffau tynhau beri rhwystr.
- e) Rhaid sicrhau bod pegiau a rhaffau tynhau ger pob agoriad wedi'u gorchuddio â thâp hawdd ei weld a phadin ar y pegiau er mwyn atal anafiadau i gerddwyr.
- f) Argymhellir darparu ffens neu dâp addas hawdd ei (g)weld ar hyd ymyl y babell fawr i atal cerddwyr rhag dod i gysylltiad â'r pegiau a'r rhaffau tynhau.
- g) Mae'n rhaid angori'r gorchudd llawr yn ddiogel er mwyn osgoi peryglon baglu.

Os na fydd gorchudd llawr dylid cymryd gofal i sicrhau fod unrhyw dyllau neu dwmpathau yn y cae wedi cael eu llenwi a'u gwastatáu er mwyn osgoi anafiadau i gerddwyr.

9) Adeiladau Amaethyddol

- a) Lle defnyddir adeiladau amaethyddol i gynnal digwyddiadau, mae'n rhaid i drefnwyr sicrhau bod yr holl allanfeydd argyfwng y cytunwyd arnynt ar gael drwy gydol y digwyddiad. Ni chaniateir i'r allanfeydd gael eu cloi, eu bolltio na'u dal mewn unrhyw fodd arall tra bydd y cyhoedd ar y safle.
- b) Ni chaniateir i unrhyw ffensys neu gatiâu beri rhwystr ger y brif fynedfa i'r safle.
- c) Mae'n rhaid dangos y trefniadau derbyn tocynnau ar y darlun llinell gwreiddiol a chytuno arnynt â'r Swyddog Tân.
- d) Mae'n rhaid clirio pob deunydd llosgadwy a cherbyd o'r adeilad.
- e) Dylid cymryd camau digonol i atal mynediad i aelodau o'r cyhoedd at unrhyw fannau neu adeiladau cyfagos nad ydynt wedi'u cynnwys yn y drwydded adloniant.

10) Llwyfan

Mae'n rhaid i'r llwyfan fod yn addas ar gyfer y math o adloniant a ddarperir. Yn ddelfrydol, dylai'r llwyfan fod yn uned symudol bwrpasol. Fodd bynnag, os bydd ymgeiswyr yn dewis adeiladu llwyfan o ddeunyddiau eraill, er enghraifft, ôl-gerbydau neu baledi, mae'n rhaid ei adeiladu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch y cyhoedd a'r rhai sy'n perfformio.

Yn benodol:-

- a) Os defnyddir ôl-gerbydau, mae'n hanfodol bwysig eu bod wedi'u hangori'n ddiogel er mwyn gwrthsefyll grymoedd o du'r perfformwyr a'r gynulleidfa.
- b) Mae'n rhaid i bob llwyfan fod ag arwyneb llyfn heb beryglon baglu. Mae hyn yn benodol o berthnasol pan fydd band neu gôr ar y llwyfan. Hefyd mae'n rhaid cael grisiau digonol i'r llwyfan gyda chanllaw at ddefnydd y perfformwyr. Yn ddelfrydol bydd canllaw parhaus ar y ddwy ochr a'r cefn.

I gydymffurfio â'r meini prawf mae'n bosibl y bydd rhaid ychwanegu arwyneb di-fwlch, e.e. pren haenog, at rai ôl-gerbydau amaethyddol.

11) Tai Bach

Mae'n rhaid i'r trefnwyr ddarparu tai bach yn y digwyddiad.

Mae'n rhaid i'r tai bach a ddarperir fod wedi'u lleoli'n briodol. Dylid defnyddio cabanau portakabin â grisiau digonol. Dylid clymu unedau hunan-gynhwysol unigol i wal neu ffens gyfagos. Dylid darparu golau digonol a chyflenwadau digonol o ddŵr, tywelion sychu dwylo ac ati ym mhob tŷ bach.

12) Gwaith Trydan

Dylai'r trefnwyr sicrhau bod Archwiliad Gwaith Trydan yn cael ei gynnal yn y man cynnal gan gynnwys ardal y llwyfan, y tai bach, y bar ac unrhyw gyfleusterau arlwyo.

Lle defnyddir generaduron symudol yn y man cynnal mae'n rhaid arddangos y dystysgrif ddiogelwch neu'r atodlen gwasanaeth berthnasol. Dylid cymryd gofal wrth leoli'r generaduron er mwyn sicrhau eu bod i ffwrdd o'r safle, yn ddelfrydol wedi'u cloi y tu ôl i ffens a bod unrhyw danwydd yn cael ei storio mewn man ar wahân mewn cynhwysydd dur â chlo arno.

Cynghorir trefnwyr i ymgynghori â'r trydanwr mewn da bryd cyn y digwyddiad er mwyn sicrhau eu bod yn caniatáu digon o amser i gwblhau'r gwaith gosod a'r profion angenrheidiol mewn pryd cyn y digwyddiad. Hefyd, dylid ymgynghori â'r trydanwr ynghylch y goleuadau ychwanegol a'r llifoleuadau sy'n ofynnol ar y safle.

13) Cyfleusterau Arlwyo a Bar

Dylai'r trefnwyr anfon fanylion y cwmnïau neu'r sefydliadau a fydd yn darparu unrhyw gyfleusterau arlwyo neu far ynghyd â manylion ynghylch y math o fwyd a fydd ar gael e.e. barbeciw, fan arlwyo ac ati.

14) Y Math o Adloniant a ddarperir

Mae'n rhaid hefyd i'r Trefnwr sicrhau nad yw'r math o adloniant a ddarperir yn achosi niwsans sŵn i drigolion yng nghyffiniau'r digwyddiad.

15) Diogelwch Rhag Tân

Cynghorir y trefnydd i baratoi asesiad risg tân. Gellir cael cyngor ynghylch diogelwch rhag tân a'ch cyfrifoldebau statudol oddi wrth yr Adran Diogelwch Rhag Tân yn y Frigâd Dân. Nodir eu manylion cyswllt drosodd.

16) I gael rhagor o wybodaeth ynghylch lechyd a Diogelwch a Hylendid Bwyd cysylltwch â'r canlynol:

Mr Paul Willis
Pen Ymarferydd lechyd yr Amgylchedd
Adran Cymunedau
Cyngor Sir Caerfyrddin
3 Heol Spilman
Caerfyrddin
SA31 1LE
Rhif ffôn: 01267 234567
Rhif ffacs: 01554 742115
E-bost: PWillis@sirgar.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch Llygredd Sŵn cysylltwch â'r canlynol:-

Mr Aled Morgan
Swyddog lechyd yr Amgylchedd
Adran Cymunedau
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Dref, Rhydaman
Heol Iscennen
Rhydaman
SA18 3BE

Rhif ffôn: 01267 234567

e-bost: AWMorgan@sirgar.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch Diogelwch Rhag Tân cysylltwch â'r canlynol:-

Y Rheolwr Sirol
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Pencadlys Ardal Reoli Sirol Sir Gaerfyrddin
Lôn Pisgwydd
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 1SP

Rhif ffôn: 0870 6060699

Canllaw cyffredinol yn unig yw'r ddogfen hon. Ni ddylid dibynnu arni i amlinellu'r holl gyfrifoldebau statudol a all fod ar drefnwyr digwyddiadau. Cynghorir trefnwyr i gael cyngor annibynnol.



HEDDLU DYFED-POWYS



Tîm Trwyddedu Rhanbarth Sir Gaerfyrddin

Rydych chi wedi gwneud cais am Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ac mae'r Heddlu yn gofyn ichi ddarllen y wybodaeth isod cyn cyflwyno eich cais.

Gall Tîm Trwyddedu Rhanbarth Sir Gaerfyrddin Heddlu Dyfed-Powys wrthwynebu cais am Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, os yw'n credu y byddai caniatáu i'r digwyddiad fynd rhagddo yn tanseilio'r amcan trwyddedu ynghylch atal trosedd ac anhrefn. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd alcohol yn cael ei werthu.

Byddai'r Heddlu yn gofyn i bob ymgeisydd sy'n cwblhau ffurflen Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ddarparu cynllun rheoli sy'n nodi sut y bwriedir ymdrin â'r gwahanol faterion er mwyn rheoli'r digwyddiad a gynllunnir yn llwyddiannus. Gellir gwneud hyn ar ffurf llythyr neu ddogfen a atodir i'r cais.

Gallai ymdrin yn gynnar â'r gwahanol faterion fod yn fodd i osgoi oedi diangen o ran rhoi'r drwydded.

Mae'r Heddlu'n gofyn ichi roi ystyriaeth i'r canlynol:

Goruchwylwyr Drysau/Cynorthwyyr

A oes angen cael Goruchwylwyr Drysau Cofrestredig a drwyddedwyd gan SIA ar ddyletswydd yn ogystal â'r cynorthwyyr oherwydd y math o ddigwyddiad a'i faint?

Defnyddio Gwydrau a Photeli Plastig.

Ystyriwch ddefnyddio gwydrau a photeli plastig ym mhob math o ddigwyddiad lle bydd alcohol yn cael ei werthu ac yn enwedig mewn digwyddiadau awyr agored.

Biniau Sbwriel

Bod digon o finiau sbwriel o gwmpas y safle lle cynhelir y digwyddiad.

Toiledau.

Toiledau digonol trwy ddefnyddio adeilad parhaol ger y digwyddiad neu doiledau dros dro ar y safle. Bydd angen arwyddion clir ar gyfer y naill a'r llall.

Pobl Ifanc o Dan 16 blwydd oed

Sut y byddwch chi'n rheoli pobl ifanc o dan un ar bymtheg oed sy'n mynychu'r digwyddiad, yn enwedig os oes pabell gwrw. Faint o oruchwyliaeth fydd?

Gwerthu Alcohol i bobl ifanc o dan 18 mlwydd oed.

Pa gamau fydd ar waith i atal gwerthu alcohol i unigolion o dan 18 mlwydd oed. A ddefnyddir cardiau prawf oedran, arwyddion a goruchwyliaeth ddigonol?

Pebyll Cwrw

A nodir man penodedig ar gyfer gwerthu alcohol? Pa ddulliau a chamau a gymerir i reoli'r niferoedd yn y man hwnnw? A fydd llecyn ar wahân ar gyfer teuluoedd?

Niferoedd sy'n mynychu'r Digwyddiad

499 yw'r mwyafswm a ganiateir yn y digwyddiad. Pa gamau a gymerir i reoli'r niferoedd?

Cynllun o Fan Cynnal y Digwyddiad

Ystyriwch ddarparu cynllun sy'n dangos lleoliad yr holl weithgareddau trwyddedadwy ynghyd â lleoliad y toiledau, maes parcio a'r mannau cymorth cyntaf. Bydd hyn yn gymorth o ran ymateb i'r cais.

Cyflwyno Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro

I osgoi oedi diangen dylai copi yr Heddlu o'r cais gael ei gyflwyno yn bersonol yng Ngorsaf yr Heddlu Rhydaman neu gael ei bostio i'r cyfeiriad canlynol:

Swyddog Trwyddedu
Gorsaf yr Heddlu
Heol y Ffowndri
Rhydaman
Sir Gaerfyrddin
SA18 2LS

â'r geiriau ***HYSBYSIAD DIGWYDDIAD DROS DRO*** wedi'u marcio'n glir arno

Nid yw'r cyfarwyddiadau uchod yn berthnasol i bob digwyddiad gan eu bod yn amrywio o ran eu maint a'r mathau o weithgareddau trwyddedadwy y gwneir cais amdanynt. Defnyddiwch yr arweiniad i'ch helpu i gynllunio digwyddiad llwyddiannus.

Os bydd angen rhagor o gymorth arnoch mae croeso ichi gysylltu â Swyddog Trwyddedu yr Heddlu yng Ngorsaf yr Heddlu, Llanelli drwy ffonio **101 estyniad 26464**.